

CYNGOR CYMUNED TREWALCHMAI COMMUNITY COUNCIL
7/03/2016

PRESENNOL: Cadeirydd Mrs C Lloyd, Is-gadeirydd Mr R G Parry, Mrs E Jones, Ms M Williams, Mrs S Jones, Mrs H Williams, Ms M E Evans, Mr G Williams, Mr B Veevers. PCSO Marcia Hughes a PCSO Alison.

PRESENT: Chairman Mrs C Lloyd Vice-Chairman Mr R G Parry, Mrs E Jones, Ms M Williams, Mrs S Jones, Mrs H Williams, Ms M E Evans, Mr G Williams, Mr B Veevers. PCSO Marcia Hughes and PCSO Alison.

YMDDIHEURIADAU: Derbyniwyd ymddiheuriad am eu habsenoldeb oddi wrth Mrs S Roberts, a'r Cynghorwyr Nicola Roberts a Dylan Rees.

APOLOGIES: Apologies for their absence was received from Mrs S Roberts, and Councillors Nicola Roberts and Dylan Rees.

COFNODION: Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1/02/2016 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

MINUTES: Minutes of the meeting held on 1/02/2016 were accepted as true minutes of the meeting.

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlwyd â theulu'r diweddar Delwyn Jones yn eu profedigaeth ddiweddar.

CONDOLENCES: Condolences were expressed with the family of the late Delwyn Jones on their recent bereavement.

MATERION YN CODI:

1. Cloc y pentref.

(a) Amcangyfrif o £876.00 a TAW i drwsio pendil y cloc wedi'i dderbyn oddi wrth Mri. J B Joyce. Penderfynwyd derbyn yr amcangyfrif, a gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Mri J B Joyce yn cadarnhau hynny ac ar yr un pryd yn datgan siomedigaeth y Cyngor fod cymaint o wariant i'w wneud ar y cloc mor fuan ar ôl i'r cwmni wneud gwaith trin sylweddol ar y cloc.

(b) Mrs S Jones yn cadarnhau bod ffram i ddal y torchau pabi o gwmpas y cloc wedi'i gwneud gan Mona F & T, a hynny heb ddim cost i'r Cyngor Cymuned. Penderfynwyd fod y ffram i'w chadw gan Mr Neville Williams, gofawr y cloc, a'i fod yntau'n gyfrifol am osod y ffram o gwmpas y cloc cyn Sul y Coffa bob mis Tachwedd a'i symud oddi yno i'w chadw ar ddiwedd bob mis Tachwedd. . Gofynnwyd i'r Clerc anfon llythyr at Mr

MATTERS ARISING:

1. Village Clock.

(a) An estimate of £876.00 + VAT had been received from Messrs J B Joyce to repair the clock's pendulum. It was decided to accept the estimate, and the Clerk was requested to write to Messrs J B Joyce and confirming and at the same time expressing the Council's disappointment that so much money had to be spent on the clock so soon after the company carried out substantial repairs to the clock.

(b) Mrs S Jones confirmed that a frame to hold the poppy wreaths around the clock had been made, free of charge, by Mona F & T.. It was decided that the frame be kept by the caretaker, Mr Neville Williams, and that he be responsible for erecting the frame around the clock in good time for the Remembrance Sunday service every November, and to remove it for safe keeping at the end of every

Tony White Mona F & T i ddiolch iddo am ei garedigrwydd.

2. Llwybr Cyhoeddus Glen Cottage. Derbyniwyd cadarnhad gan y Cyngor Sir eu bod wedi ymweld â'r llwybr a bod y rhwystr wedi'i symud.

3. Wal derfyn Mrs Bown. Y weiren heb ei gosod hyd yma.

4. Tyllau ar Lôn yr Eglwys. Y gwaith trwsio wedi'i ddechrau ond heb ei gwblhau hyd yma.

5. Lôn o'r Tollgate at Bryn Cwr. Y Cyngorydd R G Parry wedi dod a'r mater i sylw'r Cyngor Sir, ond wedi cael gwybod nad oedd y Cyngor Sir mewn sefyllfa, oherwydd prinder arian, i ystyried y cais i ledu'r ffordd

6..Safle dros dro i Sipsiwn a Theithwyr. Yr ymgynghoriad wedi'i dderbyn ar y 11/2/2016. Roedd nifer o aelodau o'r Cyngor Cymuned wedi mynychu cyfarfod cyhoeddus wedi'i alw gan Gyngor Cymuned Bodffordd yng Nghae Sioe Môn i drafod y mater hwn. Penderfynwyd fod y Cyngor Cymuned yn gwrthwynebu lleoli safle i'r sipsiwn a theithwyr yn Stad Ddiwydiannol Mona, a gofynnwyd i Mrs Edna Jones lenwi'r holiadur ynghlwm i'r ymgynghoriad yn mynegi gwrthwynebiad llwyr Gyngor Cymuned Trewalchmai i'r lleoliad arfaethedig, a'i anfon at y Cyngor Sir cyn gynted â phosib.

GOHEBIAETH:

1. Y Parch. Steve Leyland. Derbyniwyd llythyr oddi wrth Y Parch Steve Leyland, ficer y plwyf, yn cynghori'r Cyngor Cymuned mai ond 5 lle i gladdu oedd ar ôl ym mynwent yr Eglwys. Yn dilyn i Glerc y Cyngor

November. The Clerk was requested to write a letter to Mr Tony White, Mona F & T to thank him for his kindness.

2. Glen Cottage Public Footpath. Confirmation received from the County Council that they had visited the site and that the obstruction had been removed.

3. Mrs Bown's boundary wall. To date, the wire had not been fixed.

4. Holes on Lôn yr Eglwys. Repair work had been commenced, but to date had not been completed'

5. Road from the Tollgate to Bryn Cwr. Councillor R G Parry had brought this matter to the attention of the County Council, and had been advised that, due to shortage of money, the County Council were not in a position to consider widening this road.

6. Transitory Site for Gypsies and Travellers. The consultation had been received on the 11/2/2016. A number of the Community Councillors had attended a meeting called y Bodffordd Community Council and held at Anglesey Showground to discuss this matter. It was decided that the Community Council were opposed to siting the transitory site for gypsies and travellers at the Mona Industrial Estate, and Mrs Edna Jones was requested to complete the questionnaire attached to the consultation stating that the Trewalchmai Community Council were totally opposed to the proposed siting, and forward it to the County Council as soon as possible.

CORRESPONDENCE:

1. The Rev. Steve Leyland. A letter was received from the parish vicar, Rev. Steve Leyland, advising the Community Council that only 5 slots were available for burial at the church's cemetery. Following advice

Cymuned dderbyn cyngor cyn y cyfarfod yn cadarnhau nad oedd unrhyw ofyniad statudol ar y Cyngor Cymuned yn y mater hwn, penderfynwyd anfon llythyr at y Parch Steve Leyland yn ei gynghori o hynny, ac yn awgrymu ei fod yn cysylltu â'r Cyngor Sir ynglŷn â'r mater, a hefyd yn gofyn iddo ystyried defnyddio Llain y Gloch, sydd ym mherchnogaeth yr Eglwys, ar gyfer mynwent newydd.

2. Cyngor Sir Ynys Môn.

(a) Ymgynghoriad Y Dreth Gyngor – Premiwm Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor. Er gwybodaeth.

(b) Ariannu ar gyfer cynlluniau chwarae haf 2016. Er gwybodaeth.

(c) Gwahoddiad i gyfarfod i drafod y Gwasanaeth Llyfrgell. Er gwybodaeth.

(d) Cyflymu Cymru i Fusnesau. Linc am restr o ddigwyddiadau. Er gwybodaeth.

(e) Rhybuddion derbyn cais cynllunio Derbyniwyd tri chais cynllunio fel a ganlyn: (i) Cais llawn i newid defnydd o siop torri gwallt i annedd yn 2 Preswylfa, Gwalchmai; (ii) Cais llawn ar gyfer codi annedd ynghyd a chreu mynedfa i gerbydau ar dir tu ôl i Tan y Bryn, Gwalchmai, ac (iii) Cais llawn ar gyfer creu mynedfa i gerbydau ar dir yn Graianfryn, Gwalchmai.

3. Llywodraeth Cymru.

(a) Adroddiad Blyneddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2016/17. Yr adroddiad i'w chael ar wefan y Panel

(b) Canllawiau Statudol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Y canllawiau i'w gweld ar wefan y Gwasanaethau Cyhoeddus.

4. Yr Arolygiaeth Gynllunio.

received by the Clerk of the Council prior to the meeting confirming that there was no statutory obligation on the Community Council in this matter, it was decided to send a letter to the Rev Steve Leyland advising him of this, and suggesting that he contact the County Council regarding the matter, and also asking him to consider using Llain Gloch, which is in the ownership of the Church, as a new cemetery.

2. Anglesey County Council.

(a) Council Tax Consultation – Long Term Empty and Second Home Premiums. For information..

(b) Funding for summer playschemes 2016. For information.

(c) Invitation to a meeting to discuss the Library Service. For information.

(d) Superfast Business Wales. Link to the list of events. For information.

(e) Notice of receipt of planning applications. Three planning applications received: (i) Full application for change of use from a hairdresser's salon into a dwelling at 2 Preswylfa, Gwalchmai; (ii) Full application for the erection of a dwelling together with the construction of a vehicular access on land to the rear of Tan y Bryn, Gwalchmai; (iii) Full application for the construction of a vehicular access on land at Graianfryn, Gwalchmai.

3. Welsh Government.

(a) The Independent Remuneration Panel Annual Report 2016/17. The report to be found on the Panel's website.

(b) Statutory Guidance on Well-being of Future Generations (Wales) Act. The guidance to be found on the Public Services website.

4. The Planning Inspectorate.

Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS). Penderfyniadau yn cael eu gwneud nawr gan Lywodraeth Cymru, nid gan yr awdurdod cynllunio lleol.

5. Un Llais Cymru.

Tair gohebiaeth fel a ganlyn: (i) Trosglwyddo Asedau; Fframwaith Moesegol Llywodraeth Leol; Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol. Y tri er gwybodaeth.

6. Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn. Cofrestr Newidiadau â Ffocws i'r Cynllun Adnau. Er gwybodaeth.

7. Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Egwyddorion Gweinyddiaeth Dda a Rheoli Cofnodion yn Dda. Er gwybodaeth.

8. Urdd Gobaith Cymru. Cais am gyfraniad. Penderfynu peidio anfon cyfraniad, ond yn hytrach cyfrannu at gostau'r Ysgol Ffridd pe byddant yn llwyddo yn yr Eisteddfod Cylch.

ARIANNOL:

1. Derbyniwyd anfonebau fel a ganlyn: (i) **£75.00** oddi wrth Mr Hywel G Hughes am gyfieithu ar y pryd yng nghyfarfodydd mis Ionawr a mis Chwefror; (ii) **£29.03** Npower am gyflenwad trydan i'r cloc. Penderfynwyd bod y Clerc i dalu'r anfonebau. Gan ei bod yn ddiwedd y flwyddyn ariannol, y Clerc i dalu hefyd: (i) cyflog gofalwr y cloc **£300**; (ii) cyflog, costau sefydlog a chost stampiau i'r Clerc **£919.69**; tâl am logi Neuadd yr Henoed i gynnal 7 cyfarfod 2015/2016 **£70.00**., HMRC treth ar gyflog y Clerc **£95.00**.

UNRHYW FATER ARALL:

1. Cwyn i law fod wyneb Lôn Gerrig wedi'i difrodi. Gofynnwyd i'r Cynghorydd R G Parry ddod a'r mater i sylw'r Cyngor Sir.

Development of National Significance (DNS). Decisions now being made by the Welsh Government, not by the local planning authority.

5. One Voice Wales.

Three correspondences as follows: (i) Asset Transfer; (ii) Local Government Ethical Framework; (iii) 2018 Review of Parliamentary Constituencies in Wales. All three for information.

6. Joint Planning Policy Unit Anglesey & Gwynedd. Schedule of Focussed Changes to the Deposit Plan. For information.

7. Public Services Ombudsman for Wales. Principles of Good Administration and Good Records Management. For information.

8. Urdd Gobaith Cymru. Request for a donation. It was decided not to send a donation, but to contribute towards Ysgol y Ffridd's costs if they were successful in the Area Eisteddfod.

FINANCIAL:

1. Invoices received as follows: (i) **£75.00** from Mr Hywel G Hughes for interpreting at the January and February meetings; (ii) **£29.03** Npower for electricity supply to the clock. It was decided that the Clerk pay both invoices. As it was the end of the financial year the Clerk to also pay (i) **£300** to the clock caretaker; **£919.69** clerk's salary, fixed costs and the cost of stamps; **£70.00** payment for hiring Pensioner's Hall to conduct 7 meetings 2015/2016; **£95.00** HMRC tax on Clerk's salary.

ANY OTHER MATTER:

1. Complaint received stating that the surface of Lôn Gerrig had been damaged. Councillor R G Parry was requested to bring the matter to the

attention of the County Council.

CYFARFOD NESAF: Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun 4 Ebrill 2016 am 7pm yn Neuadd yr Henoed.

NEXT MEETING: The next meeting will be held on Monday 4 April 2016 at 7pm at the Pensioners' Hall.